# CYNGOR CYMUNED MAENTWROG

## Cofnodion Cyfarfod 04.03.2025

Presennol: Eirian Hoyle, Heulwen Parry, Meredydd Williams, Gareth Jones, Eurwyn Jones, Lynda Massarelli, Francesca Williams, Rebecca Phasey, Elfed Roberts

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir: RP, ER

2a. Datgan Diddordeb: Dim

<u>3. Materion yn codi o'r cofnodion</u>

3.612 _Cae Chwarae Gellilydan- clerc i ail-gysylltu i weld os yw'r arwchwiliad wedi ei wneud, ac beth yw y camau nesaf a threfnu cyfarfod safle os bydd angen.

3.613 Tir ger Gors Fach / Coed Gors Fach – yn dilyn cyfarfod gyda Amanda Murray ac Bryn Hughes, Elfed Roberts i ddiweddaru, dim ymateb hyd hyn, (cadw mlaen).

3.614 National Grid: Yn dilyn cyfarfod gyda Dwynwen, Adroddiad byr gan Meredydd Williams yn siarad am grantiau sydd ar gael, (cadw mlaen).

3.615 Safleoedd Bysiau Maentwrog – Elfed Roberts wedi bod mewn cysylltiad a Rhian Wyn Williams ac yn disgwyl diweddariad (cadw mlaen).

3.616 Hyfforddiant – Bydd hyfforddiant yn y Gymraeg yn ail-ddechrau yn mis Ebrill. Clerc i ofyn am fanylion o'r cyrsiau fydd ar gael.

3.617 Archwiliad Allianz – clerc wedi cysylltu a Wickstead, angen anfon llun o'r offer ymlaen.

3.618 Plas Tan y Bwlch - Derbyniwyd addroddiadd llawn o'r cyfarfod gan H Parry.

***1) Cafwyd sicrwydd bod y llwybr o amgylch Llyn Mair ac i lawr hyd at fynedfa'r llwybr beicio sydd ar y ffordd i fyny at y Plas o gyfeiriad yr Oakley Arms yn cael ei ddiogelu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac yn rhydd i'r cyhoedd ei ddefnyddio. Bydd llwybrau'r coedlanau hefyd yn cael eu diogelu ac ni fyddant yn cael eu cynnwys fel rhan o'r eiddo pe byddai'r Plas yn cael ei werthu.***
***Nid yw'n bosib cofrestu'r llwybrau gan nad ydynt yn gwneud cylchdro llawn.***

***2) Mae llwybrau eraill yr ardal yn eiddo i wahanol fudiadau, e.e. Coed Cadw, Till Hill, Rheilffordd Ffestiniog, Ymddiriedolaeth Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a pherchnogion tai preifat. Llwybrau Caniataol ydi'r rhain sy'n rhoi hawl i'r cyhoedd eu defnyddio ond nid ydynt yn hyn a elwir yn llwybrau cyhoeddus arferol.***

***3) Fel ymateb i ymholiad gan MW i'r posibilrwydd o ddiogelu hawl y cyhoedd pe gwerthid y Plas i berchnogion preifat, i gerdded i fyny hyd at adeilad y Plas, eglurwyd y byddai hyn yn anodd iawn ei ganiatau ac y byddai cynnwys yr hawl yn peryglu gwerthiant.***
***Cytunwyd i roi ystyriaeth i gynnig arall gan MW i ganiatau'r cyhoedd i ddefnyddio llwybr isaf y gerddi. (yr agosaf at y ffordd fawr)***

***4) Mewn ymateb i'n ymholiad am ystyriaethau Awdurdod y Parc yn y dyfodol ynglyn â gwerthu'r Plas mynegodd Jonathan Cawley mai dymuniad yr Awdurdod oedd cadw meddiant y Plas yn nwylo'r gymuned. Fodd bynnag o dan yr amgylchiadau economaidd anodd iawn presennol, oni bai y byddai hynny'n bosib, na fyddai gan yr Awdurdod ddim dewis ond ei werthu. Fodd bynnag, byddai'r Awdurdod yn gwneud pob ymdrech i roi blaenoriaeth i brynwr â chynlluniau addas i'r ardal a'r gymdogaeth.***

EHoyle 29/4/25



CamScanner

*5) Bydd Awdurdod y Parc yn cynnal diwrnod galw i mewn unwaith eto ddiwedd Mawrth er mwyn i'r cyhoedd gael mwy o wybodaeth am gynlluniau'r Awdurdod ynglyn â'r Plas a chael cyfle i roi eu barn.*

*6) Cytunwyd y byddai'r Awdurdod yn trefnu dyddiad i aelodau Cyngor Cymuned Maentwrog a Gellilydan ac 'Achub y Plas' i ymweld â'r Plas er mwyn cael syniad o gyflwr yr adeiladau.*

3.619 Van wedi ei barcio wrth yr hên bost. Llun i'w anfon ymlaen i'r heddlu ac i Cyngor Gwynedd.

3.620 Traffig Maentworg i Cilfor – ymateb wedi ei dderbyn gan Andrew Gregson,

*Diolch am eich ymholiad.*

*Dim ond i gadarnhau yr wyf wedi cynnwys map o'r ardal sydd yn codi pryder arnoch, sef o ddeutu 4 milltir ar yr A496 o Cilfor, Llandecwyn i Maentwrog.*

*Mae yna bosib rhoi arwyddion a chyfeiriwyd isod gennych ond wrth gwrs mae'n bwysig iddynt fod yn effeithiol ac yn rhoi neges gywir a clir i yrwyr. Os yr ydym yn gosod arwyddion yn amlygu anaddasrwydd unrhyw ffordd, mae angen adnabod beth fydd cydymffurfiaeth i'r neges ac a oes Priffordd amgen gyda daearyddiaeth well i'w gynnig, ac yr wyf yn honni mae'r A487 fydd eich cynnig. Ond y gwir amdani yw mae'n amhosib gorfodi cerbydau i beidio defnyddio unrhyw ffordd os oes ganddynt yr hawl gyfreithiol i wneud hynny ac yn benderfynol i deithio ar hyd y ffordd. Yn fy marn I - gyda phob dyledus barch - credwn mai gwastraff o adnoddau prin yw'r weithred hyn gyda chanlyniad o'r arwyddion yn annhebygol o ddylanwadu yn bositif ar ymddygiad gyrwyr.*

*Mae A496 gyda'r safon a statws uchaf a all ei rhoi ar unrhyw ffordd ar y Rhwydwaith Priffyrdd Sirol – sef dosbarth 1. Mae'r ffaith yma yn ei hyn yn rhoi syniad i modurwyr ei fod yn brif ffordd aml ddefnydd gyda isadeiledd cyffredinol uchel. Mae gyllideb cynnal a chadw Priffyrdd yn gysylltiedig gyda dosbarth y ffordd ac drwy israddio'r ffordd – hyd yn oed gyda cefnogaeth rhanddeiliaid perthnasol sydd yn annhebygol – yn gam anarferol tu hwnt gyda'r gallu i ddylanwadu'n negyddol ar ymrwymiad ariannol cynnal rhan yma o'r ffordd.*

*Hyderaf fod yr uchod yn ddefnyddiol i chi ac wrth gwrs byddwn yn croesawu trafodaeth bellach os y dymunwch.*

Yn dilyn ymateb Mr Gregson, clerc i ofyn os yw yn bosib gosod arwydd syml i arbed arweiniad i ddefnyddio y ffordd yma.

3.621 Cefnfaes – Clerc i gysylltu a CADW.

3.622 Gof Golofn – Clerc i gael pris am arwyddion newydd.

3.623 Tir ger cae chwarae Maentwrog (dros y ffordd i Tan y Foel) – ymateb wedi ei dderbyn gan y Parc.

***Diolch yn fawr iawn am eich ymholiad, yn anffodus dwi ddim yn siwr iawn pwy sydd yn berchen y tir dan sylw. Edrych yn debyg eu bod wedi clirio'r safle a wedi gosod y shipping container. Ymddiheuriadau na allaf fod yn fwy o gymorth. Dwi'n meddwl i fod yn fater i adran cyclones ac efallai Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Gwynedd os ydych yn poeni eu bod wedi effeithio cwrs dŵr.***

***Dwi wedi pasio'r ymholiad ymlaen i adran gynllunio, ond fyswn i yn annog i chi yrru ymholiad i mewn drwy ddilyn yr linc isod;***

3.624 Cae Chwarae Maenwrog - EJ wedi rhoi clo ar y giât.

<u>4.Materion i'w Trafod:</u>

4.265 Materion ar yr Agenda - Ymateb o fewn mis i'r clerc.

Elfed Gl. 29/4/25



CS CamScanner

Polisiau – Cyfarfod Mawrth 17eg

Rheoli Tyrchod Daear – yn dilyn trafodaeth, dim camau i'w cymeryd.

'Raised Beds' – HP i gysylltu a Megan o'r Dref Werdd.

5. Ariannol

5.195 Cyfrif Cadw: £226.15

5.196 Cyfrif Cyfredol: £3323.65

Cytunwyd i dalu y canlynol:

5.197 Gwe Cambrian: £131.99

6. Cynllunio

Dim ceisiadau

7. Gohebiaeth

257 Sian Gwenllian AS

258 Cffi Meirionnydd

259 Cyngor Gwynedd – Llythyr misol

8. Adroddiad o gyfarfodydd eraill

8.30 Grantiau heb eu didoli hyd hyn, (cadw mlaen).

8.31 Adroddiad gan M Williams.

- Paneli Solar
- Ynni Cymunedol Twrog – Maent yn tynnu allan o'r cynllun mawr, ac yn ei wneud eu hunain. Bydd angen talu £400.60 am yr hawl cynllunio, ond bydd y gôst yma yn cael ei dalu yn ôl.

8.32 Neuadd y Pentref: Ymddiriedolwyr - cyfarfod i'w drefnu.

9. Mynwent Dwyryd

9.62 Cyfrif y Fynwent: £22833.24

9.63 Elfed Roberts am drefnu cyfarfod arall gyda Mr a Mrs Rix, (cadw mlaen).

9.64 Lle parcio – GJ ac EJ am greu cynllun a chysylltu a'r Parc Cenedlaethol.

9.65 Tap y Fynwent angen ei newid. Gareth ac Eurwyn Jones am drefnu ei wneud, (cadw mlaen).

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Cyfarfod Mawrth 17eg i drafod polisïau y cyngor, Neuadd y Pentref am 6.30 o'r gloch.
Cyfarfod llawn - Ebrill 29ain, Neuadd y Pentref am 6.00 o'r gloch.

29/4/25



CamScanner